**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Drais yn erbyn Menywod a Phlant**

**Adroddiad Blynyddol**

**Ionawr 2019**

## Trosolwg

Pwrpas y Grŵp Trawsbleidiol ar Drais yn erbyn Menywod a Phlant yw trafod a thynnu sylw at y materion sy'n effeithio ar ferched a phlant sy'n dioddef o bob math o drais yn erbyn menywod, cam-drin yn y cartref a thrais rhywiol ledled Cymru. Cyfarfu'r grŵp pedair gwaith dros y flwyddyn diwethaf a defnyddiodd y cyfarfodydd hyn i ganolbwyntio ar nifer o faterion, gan gynnwys: cynnydd ar bolisi, lleisiau'r goroeswyr, cyfarfod ar y cyd gyda'r grŵp trawsbleidiol ar fenywod, urddas a pharch (rhoi terfyn ar drais ar sail rhywedd yn y gweithle), a chyfarfod arbennig gyda'r Gweinidog Jan Logie AS o Lywodraeth Seland Newydd i drafod Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

Mae'r rhai sydd wedi mynychu'r cyfarfodydd dros y flwyddyn yn cynnwys cynrychiolwyr gwleidyddol, gwasanaethau cymorth o'r trydydd sector, elusennau cenedlaethol, aelodau o Gymorth i Fenywod Cymru o wasanaethau cymorth sector arbenigol ac aelodau o'u grŵp Goroeswyr yn Grymuso ac Addysgu Gwasanaethau (SEEds).

## Swyddogion:

Cyd-gadeiryddion: Bethan Sayed AC a Mark Isherwood AC

Ysgrifenyddiaeth: Gwendolyn Sterk, Cymorth i Fenywod Cymru

**Crynodeb o Gyfarfodydd**

**Cyfarfod 1: 9 Gorffennaf 2018 - Cyfarfod arbennig y Grŵp Trawsbleidiol ar Drais yn erbyn Menywod a Phlant**

**Yn bresennol:**

Mark Isherwood AC (cyd-Gadeirydd), Joyce Watson AC, Ann Jones AC (Dirprwy Lywydd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru), Gwendolyn Sterk (Cymorth i Fenywod Cymru), Catherine Phillips (Cymorth i Fenywod Cymru), Simon Borja (Cymru Ddiogelach), Gauri Taylor-Nayar (Cynrychiolydd Goroeswyr), Menna Thomas (Barnardos Cymru), Sam Lewis (Llamau), Hilary Watson (WEN Cymru), Eleri Butler (Cymorth i Fenywod Cymru)

**Busnes y Cyfarfod:**

Cynhaliodd y grŵp trawsbleidiol cyfarfod arbennig gyda Jan Logie AS, Gweinidog o Seland Newydd, yn ystod ei hymweliad ymchwil i Gymru, er mwyn trafod Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2015. Roedd Llywodraeth Seland Newydd yn ystyried sefydlu asiantaeth newydd ar drais teuluol a rhywiol i weithio ar draws y llywodraeth, yn canolbwyntio ar wella ymatebion y llywodraeth i drais ar sail rhywedd ac i ysgogi gwaith ar atal y trais hwn mewn ffordd fwy cydlynol. Daeth Jan Logie AS a'i thîm i Gymru i gwrdd â phobl a sefydliadau allweddol a oedd yn rhan o ddatblygu'r Ddeddf a monitro ei gweithrediad. Fel rhan o'r ymweliad hwn, gofynnon nhw am gyfarfod gyda'r grŵp trawsbleidiol er mwyn clywed ein barnau a phrofiadau. Trafododd y grŵp y rôl yr oedd e'n ei chwarae wrth ddatblygu'r Ddeddf, yn cynnwys rôl y Cynghorwyr Cenedlaethol, sicrhau bod y Ddeddf yn seiliedig ar rywedd, a'r angen am ddull Addysg Gyfan. Yn dilyn gweithredu'r Ddeddf, mae'r grŵp wedi ysgrifennu at weinidogion i dynnu sylw at bryderon ynghylch cyflwyno, ariannu ac effaith polisïau San Steffan ar oroeswyr yng Nghymru.

Soniodd Jan Logie AS am y newidiadau yn Seland Newydd, gan gynnwys ymdrech gan oroeswyr camdriniaeth i newid canfyddiad y cyhoedd o drais yn erbyn menywod, a'r ddeddfwriaeth ar y gweill i ganiatáu 10 diwrnod o wyliau â thâl i oroeswyr.

**Cyfarfod 2: 17h Gorffennaf 2018 - Cynnydd ar Bolisi**

**Yn bresennol:**

Mark Isherwood AC (cyd-gadeirydd), Bethan Sayed AC (cyd-gadeirydd), Jane Hutt AC, David Rowlands AC, Gwendolyn Sterk (Cymorth i Fenywod Cymru), Joanne Hopkins (Y Swyddfa Gartref), Nazir Afzal (Cynghorydd Cenedlaethol ar gyfer Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol), Catherine Phillips (Cymorth i Fenywod Cymru), Helen Jones (Atal y Fro), Morgan Fackrell (Cymorth i Fenywod Caerdydd), Vivienne Laing (NSPCC), Elinor Crouch-Puzey (Cymorth i Fenywod Cymru), Frances Beecher (Llamau), Sarah Thomas (NFWI), Rebecca Powell (Y Swyddfa Gartref Cymru), Gauri (SEEdS), Julie (SEEdS), Hilary (SEEdS)

**Busnes y Cyfarfod:**

Rhoddodd Joanne Hopkins y wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp ar ymgynghoriad Llywodraeth y DU 'Trawsnewid yr Ymateb i Gam-drin Domestig', a'r themâu allweddol sy'n deillio o adborth, gan gynnwys: trafodaeth ar gwmpas y ddeddfwriaeth yn cael ei gyfyngu i gam-drin yn y cartref; pryderon ynghylch cylch gwaith y Comisiynydd Cam-drin Domestig; yr angen am gyllid digonol; yr angen i fynd i'r afael â'r anghysonderau rhwng llysoedd teuluol a throseddol; heriau ynghylch amodau mechnïaeth i droseddwyr a chynigion i wneud torri gorchmynion diogelu yn drosedd. Amlinellodd Nazir Afzal Fframwaith Cyflenwi Llywodraeth Cymru ar gyfer strategaeth genedlaethol y Ddeddf, a thrafododd bryderon ynghylch cyflymder cyflwyno'r Ddeddf, yn enwedig o ran datblygu dangosyddion cenedlaethol. Rhoddodd Catherine Phillips o Gymorth i Fenywod Cymru'r wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp ar bolisi sy'n gysylltiedig â phlant a phobl ifanc, a rhoddodd adborth gan blant a phobl ifanc ar yr hyn y maent am ei newid. Cadarnhaodd Catherine hefyd fod grwpiau ffocws gydag aelodau SEEds wedi cael mewnbwn i'r pryderon a godwyd yn ymgynghoriad y Bil ynghylch y llysoedd teuluol a hyfforddiant, yn enwedig o ran rheolaeth drwy orfodaeth, sy'n sylfaenol i welliant. Amlygodd y Cyd-Gadeirydd Bethan Sayed AC yr ymchwiliad cyhoeddus i'r heddweision cudd a oedd wedi cael perthnasau agos gyda menywod o'r ymgyrch. Mae hi'n poeni am gynnydd araf a'r angen i fwy o Aelodau'r Cynulliad lofnodi'r llythyr a ddosbarthwyd.

**Camau i'w cymryd:**

- Cytunodd y grŵp y bydd llythyr yn cael ei ddrafftio i Alun Davies AC ynglŷn â chaffael mewn awdurdodau lleol.
- Cytunodd y grŵp i rannu'r llythyr yr ymchwiliad cyhoeddus i heddweision cudd er mwyn annog mwy o Aelodau'r Cynulliad i'w gefnogi a llofnodi.

**Cyfarfod 3: 17 Hydref 2018 – Lleisiau'r Rhai sydd wedi Goroesi Cam-drin**

**Yn bresennol:**

Bethan Sayed AC (cyd-gadeirydd), Helen Mary Jones AC, Hilary Watson (WEN Cymru), Gwilym Roberts (Relate), Mutale Merrill (BAWSO), Carole Phillips, Catherine Phillips (Cymorth i Fenywod Cymru), Kay Lemon (Cymorth i Fenywod Cymru) , Elinor Crouch-Puzey (Cymorth i Fenywod Cymru), Gauri (SEEds), Hilary (SEEds), Bethan (SEEds)

**Busnes Cyfarfod:**

Cyflwynodd cynrychiolwyr o'r prosiect SEEdS eu hadolygiad o'r dull traws-lywodraethol o fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar sail eu profiadau. Amlygodd Gauri o SEEds werth mewnbwn gan oroeswyr o ran cyfarfodydd a pholisi. Soniodd Bethan o SEEds am ei chynhyrchiad theatr *'35 Times'* a'i effaith, a sut y mae hi'n gobeithio y bydd e'n cyrraedd mwy o bobl ifanc i helpu i weithio tuag at well dealltwriaeth o berthnasau iach. Soniodd Hilary o SEEds am y diffyg hyfforddiant a dealltwriaeth o fewn ysgolion o effaith camdriniaeth ar blant, a'i phrofiad ei hun o hyn. Amlygwyd pwyntiau eraill, gan gynnwys yr angen i feddygon teulu fod yn fwy ymwybodol o newidiadau mewn patrymau cyflwyno a sut y gallai hyn ddigwydd o ganlyniad i gam-drin yn y cartref, a chyflawnwyr sy'n rheoli rhyngweithio â gweithwyr iechyd proffesiynol, fel mynd i apwyntiadau gyda goroeswyr neu siarad ar eu cyfer.

**Camau i'w cymryd:**

- Cytunodd y cyfarfod i ofyn i Kirsty Williams AC ynghylch pwysigrwydd hyfforddiant gorfodol ar y Ddeddf mewn ysgolion.
- Amlygodd Bethan Sayed AC fod adolygiad o anhwylderau bwyta ledled Cymru wedi cael cefnogaeth gan Vaughan Gething, ac felly efallai y byddai modd i ddatblygu adolygiad tebyg o ran cam-drin ac ymatebion meddygon teulu. Byddai'r WWA a Bethan yn edrych i mewn i hyn.
- Byddai'r WWA yn ystyried mewnbwn gan y Pwyllgor Safonau o ran urddas a pharch ar gyfer y cyfarfod ar y cyd gyda'r grŵp trawsbleidiol ar fenywod.

**Cyfarfod 4:** **27h Hydref 2018 - Urddas a Pharch: Rhoi terfyn ar drais ar sail rhywedd yn y gweithle**

**Yn bresennol:**

Jane Hutt AC (Cyd-gadeirydd - grŵp trawsbleidiol ar fenywod), Siân Gwenllian AC (Cyd-gadeirydd - grŵp trawsbleidiol ar fenywod)**,** Mark Isherwood AC (Cyd-gadeirydd - grŵp trawsbleidiol ar drais yn erbyn menywod a phlant)**,** Jayne Bryant AC, Yasmin Khan (Cynghorydd Cenedlaethol), Catherine Fookes (WEN Cymru), Hilary Watson (WEN Cymru), Elinor Crouch-Puzey (Cymorth i Fenywod Cymru)**,** Gwendolyn Sterk (Cymorth i Fenywod Cymru), Gauri Taylor-Nayar (SEEdS)**,** Mutale Merrill (Bawso), Maria Mesa (Women Connect First)**,** Chisimoro Phiri (UCM Cymru), Cerith Rhys-Jones (UCM Cymru), Vivienne Laing (NSPCC Cymru), Rachel Cable (Oxfam Cymru), Crash Wigley (Stonewall Cymru), Sarah Thomas (Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliadau'r Merched), Helen Mary Jones AC, Leanne Wood AC, Becs Parker (Staff Cymorth AC John Griffiths), Jackie Jones (Welsh Assembly of Women), Phoebe Owen (WEN Cymru), Llinos Price (Unigolyn), Polly Winn (Chwarae Teg), Hilary Roberts (SEEdS)

**Busnes y Cyfarfod**:

Trafododd Yasmin Khan y tair thema yng ngwaith Llywodraeth Cymru: Atal, Amddiffyn a Chefnogi. Yr angen am ddull cydgysylltiedig ac ymateb i oroeswyr gan wahanol wasanaethau, gwell dealltwriaeth o drais rhywiol a'r angen am well cydweithio o ran gofal iechyd. Cadarnhaodd bod addysg rhyw a chydberthynas yn faes i'w flaenoriaethu. Trafododd Jayne Bryant AC, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, waith y pwyllgor i ddatblygu'r polisi Urddas a Pharch a sicrhau bod newid diwylliannol sy'n galluogi adrodd ac atal. Trafododd Gwendolyn Sterk (Cymorth i Fenywod Cymru) a Catherine Fookes (WEN Cymru) pa mor gyffredin oedd aflonyddwch rhywiol fel math o drais yn erbyn menywod a cham-drin domestig, a'r angen i herio ymddygiad troseddwyr. Mae aflonyddwch rhywiol yn achos a chanlyniad anghydraddoldeb rhywiol, sy'n golygu bod cysylltu'r agendâu Urddas a Pharch â'r Adolygiad Cydraddoldeb Rhywiol yng Nghymru yn bwysig. Trafododd WEN Cymru'r Maniffesto Menywod a'r angen i roi terfyn ar drais ar sail rhywedd yn y gweithle, ac am gydbwysedd 50:50 yn y Cynulliad Cenedlaethol ac ar lefel llywodraeth leol.

**Camau i'w cymryd:**

- Ysgrifennu at y Comisiynydd Safonau a threfnu cyfarfod dilynol
- Cyflwyno enghreifftiau o ymchwil rhyngwladol sy'n berthnasol i arfer da i'r Pwyllgor Safonau
- Cylchredeg cynllun drafft ar gyfer yr ymgyrch 50:50 gan y grŵp trawsbleidiol ar fenywod (WEN Cymru)
- Gofyn i Gynghorwyr Cenedlaethol am ymgysylltiad eu Swyddogion Cymreig â Bil Cam-drin Domestig Llywodraeth y DU (Cymorth i Fenywod Cymru)
- Cadeiryddion ac Ysgrifenyddion i gynorthwyo'r Pwyllgor Safonau i ddilyn yr adroddiad 'Creu'r Diwylliant Cywir', gan gynnwys edrych ar yr amserlen

**<u>Datganiad Ariannol Blynyddol</u>**

19 Ionawr 2019

Y Grŵp Trawsbleidiol ar Drais yn erbyn Menywod a Phlant

Cyd-gadeiryddion: Bethan Sayed AC a Mark Isherwood AC

Ysgrifenyddiaeth: Gwendolyn Sterk, Cymorth i Fenywod Cymru

| | | |
|---|---|---|
| Treuliau'r Grŵp | | £0.00 |
| Cost yr holl nwyddau. | Lluniaeth (te a choffi) wedi'i ariannu gan Gymorth i Fenywod Cymru | £29.10 |
| Buddiannau a gafodd y grŵp neu Aelodau unigol gan gyrff allanol. | Ni chafwyd buddiannau. | £0.00 |
| Unrhyw gymorth ysgrifenyddiaeth neu gymorth arall. | Ni chafwyd cymorth ariannol. | £0.00 |
| **Cyfanswm y gost** | | £29.10 |